

Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar y Bil Gwasanaethau Ariannol

Rhagfyr 2020

1. Cefndir

Y Bil

1. Cafodd y Bil Gwasanaethau Ariannol (y Bil)¹ ei ddarlleniad cyntaf yn Nhŷ'r Cyffredin ar 21 Hydref 2020. Fe'i noddir gan Drysorlys EM.
2. Mae teitl hir y Bil, fel y'i cyflwynwyd, yn nodi diben y Bil, fel a ganlyn:

“Make provision about financial services and markets; to make provision about debt respite schemes; to make provision about Help-to-Save accounts; and for connected purposes.”

Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru

3. Ar 3 Tachwedd 2020, gosododd Jane Hutt AS, Dirprwy Weinidog a Phrif Chwip Llywodraeth Cymru, Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol gerbron y Senedd² mewn perthynas â'r Bil.
4. Cytunodd y Pwyllgor Busnes i gyfeirio'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol at Bwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau ac at y Pwyllgor

¹ Bil Gwasanaethau Ariannol 2019-21 [Bil 200]

² Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Gwasanaethau Ariannol, Tachwedd 2020



Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad i'w drafod, gyda 18 Rhagfyr 2020 wedi'i bennu fel y dyddiad cau ar gyfer adrodd.³

5. Mae'r Bil, i raddau helaeth, yn ceisio sicrhau bod fframwaith rheoleiddiol y Deyrnas Unedig yn parhau i weithredu'n effeithiol i'r Deyrnas Unedig wedi iddi ymadael â'r Undeb Ewropeaidd. Yn gyffredinol, mae gwasanaethau ariannol yn fater a gedwir yn ôl i Senedd y DU.

6. Fodd bynnag, mae cymal 32 o'r Bil yn darparu ar gyfer gwneud diwygiadau i *Ddeddf Cyfarwyddyd Ariannol a Hawliadau 2018* (Deddf 2018). Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi:

“Mae *Deddf Cyfarwyddyd Ariannol a Hawliadau 2018* wedi gwneud darpariaeth ar gyfer creu cynllun seibiant dyledion. Mae'r cynllun yn cynnwys dwy ran: Lle i Anadlu a'r Cynllun Ad-dalu Dyled Statudol (SDRP).”⁴

7. Rhoddodd y Senedd ei chydsyniad deddfwriaethol i Ddeddf 2018 ar 13 Chwefror 2018.⁵

8. Trafododd y Pwyllgor ran gyntaf y cynllun, sef Rheoliadau'r Cynllun Seibiant Dyledion (Moratoriwm Lle i Anadlu a Moratoriwm Argyfwng Iechyd Meddwl) (Cymru a Lloegr) 2020 (y Rheoliadau Lle i Anadlu), ar 2 Tachwedd 2020.⁶ Cymeradwyodd y Senedd y Rheoliadau Lle i Anadlu ar 10 Tachwedd 2020.⁷ Mae'r Bil yn gwneud darpariaeth mewn perthynas ag ail ran y cynllun, sef yr SDRP.

Darpariaeth y mae angen cydsyniad y Senedd yn ei chylch

9. Mae paragraffau 5 i 9 o'r Memorandwm yn nodi barn Llywodraeth Cymru ynghylch pa ddarpariaethau yn y Bil y bydd angen cydsyniad y Senedd yn eu cylch.

³ Adroddiad gan y Pwyllgor Busnes, [Yr amserlen ar gyfer ystyried y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer y Bil Gwasanaethau Ariannol](#), Tachwedd 2020

⁴ Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol, paragraff 5

⁵ Y Cyfarfod Llawn, [Cofnod y Trafodion](#), 13 Chwefror 2018

⁶ Adroddiad gan y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, [SL\(5\)635 – Rheoliadau'r Cynllun Seibiant Dyledion \(Moratoriwm Lle i Anadlu a Moratoriwm Argyfwng Iechyd Meddwl\) \(Cymru a Lloegr\) 2020](#), Tachwedd 2020

⁷ Y Cyfarfod Llawn, [Cofnod y Trafodion](#), 10 Tachwedd 2020

10. Mae Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU yn cytuno bod angen cydsyniad y Senedd ar ddarpariaethau yng nghymal 32.

Cymal 32 – Cynllun seibiant dyled

11. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi:

“Bydd Cymal 32 yn diwygio adrannau 6 a 7 o *Ddeddf Cyfarwyddyd Ariannol a Hawliadau 2018* i roi'r ystod llawn o'r pwerau sydd eu hangen ar Lywodraeth y Deyrnas Unedig i ddrafftio'r rheoliadau er mwyn gweithredu SDRP yn effeithiol.”⁸

12. Yn gryno, bydd y diwygiadau hyn yn caniatáu i reoliadau a wneir gan Lywodraeth y DU arwain at sefydlu SDRP sy'n cynnwys darpariaethau a allai:

- orfodi credydwyr i dderbyn telerau ad-dalu diwygiedig;
- darparu mecanwaith codi tâl lle bydd credydwyr yn cyfrannu drwyddo at gost rhedeg y cynllun a'r cynlluniau ad-dalu;
- cynnwys dyledion sy'n ddyledus i adrannau'r llywodraeth ganolog.⁹

13. Mae'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol yn datgan:

“Mae Cymal 32 yn ymwneud â rheoli dyledion personol ac yn cynorthwyo unigolion i reoli eu dyledion, yn helpu i ddatrys anawsterau gydag ad-daliadau ac i ad-dalu yr hyn sydd yn ddyledus i greydwyr mewn ffordd sy'n cael ei rheoli. Rhaid gofyn am gydsyniad oherwydd bod y ddarpariaeth yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd a'i fod yn gwneud darpariaeth ynghylch materion sydd wedi eu datganoli. Mae pob un o ddarpariaethau eraill y Bil yn ymwneud â chadw gwasanaethau ariannol ac maent, oherwydd hynny, y tu allan i gymhwysedd y Senedd.”¹⁰

14. Mae'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol hefyd yn nodi:

⁸ Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol, paragraff 6. Mae adrannau 6 a 7 o *Ddeddf Cyfarwyddyd Ariannol a Hawliadau 2018* yn ei gwneud yn ofynnol i'r Ysgrifennydd Gwladol geisio cyngor ar sefydlu cynllun seibiant dyledion ac ystyried gwneud rheoliadau i sefydlu cynllun seibiant dyledion, cyn gynted ag sy'n rhesymol ymarferol ar ôl cael y cyngor hwnnw.

⁹ Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol, paragraff 7

¹⁰ Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol, paragraff 9

“... bydd rhaid i unrhyw reoliadau, i'r graddau y maent yn darparu bod y cynllun SDPR yn gymwys i Gymru, gael eu gosod gerbron y Senedd a'u cymeradwyo drwy benderfyniad ganddi, er mwyn i'r rheoliadau hynny fod yn gymwys yng Nghymru.”¹¹

15. Mae'r Memorandwm yn nodi'r ffaith nad yw Llywodraeth y Deyrnas Unedig wedi pennu dyddiad penodol ar gyfer gweithredu'r SDRP, na dweud pryd y mae'n bwriadu gwneud y rheoliadau.¹²

16. Mae paragraffau 10 ac 11 o'r Memorandwm yn nodi'r rhesymau dros wneud y darpariaethau ar gyfer Cymru yn y Bil.

17. Mae'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol yn datgan:

“Mae Llywodraeth Cymru o'r farn ei bod yn briodol ymdrin â'r ddarpariaeth hon o fewn Bil y Deyrnas Unedig gan mai dyma'r cyfrwng deddfwriaethol mwyaf priodol a chymesur i alluogi datblygu'r rheoliadau a fydd yn caniatáu i ail ran y cynllun seibiant dyledion, h.y. yr SDRP, fod yn gymwys yng Nghymru yn amodol ar ystyriaeth lawn o fanylion unrhyw gynllun arfaethedig gan y Senedd a chymeradwyo'r rheoliadau sy'n ei weithredu.”¹³

2. Trafodaeth y Pwyllgor

18. Gwnaethom drafod y Memorandwm yn ystod ein cyfarfod ar 23 Tachwedd 2020.¹⁴

Ein barn ni

19. Rydym yn nodi asesiad Llywodraeth Cymru o'r darpariaethau yn y Bil y mae angen cydsyniad y Senedd yn eu cylch. Rydym hefyd yn nodi'r rhesymau pam, ym marn Llywodraeth Cymru, y mae'n briodol gwneud darpariaeth i Gymru yn y Bil.

20. Rydym hefyd yn nodi bydd rhaid i unrhyw reoliadau a wneir gan Weinidogion y DU, i'r graddau y maent yn darparu bod y cynllun SDPR yn gymwys

¹¹ Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol, paragraff 8

¹² Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol, paragraff 8

¹³ Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol, paragraff 11

¹⁴ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 23 Tachwedd 2020

i Gymru, gael eu gosod gerbron y Senedd a'u cymeradwyo drwy benderfyniad ganddi, er mwyn i'r rheoliadau hynny fod yn gymwys yng Nghymru.